

Mae'r dadansoddiad beirniadol yma yn trafod pwysigrwydd arweinyddiaeth gatalytig ac yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau bod lleoliadau Blynyddoedd Cynnar yn gallu cynnig y gefnogaeth briodol i blant yn seiliedig ar ffactorau cymdeithasegol gwahanol. Yna, bydd astudiaeth fanwl o'r modd mae penodi Comisiynwyr Plant yng Nghymru wedi effeithio ar fywydau plant a chynigir barn am y cynnydd a wnaed i gyrraedd yr hawliau sydd gan blant ar hyn o bryd. I gloi, bydd gwerthusiad beirniadol am un agwedd gymdeithasegol sy'n effeithio ar brofiadau bywyd plant a'r ymyriadau a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi hyn.

Rhan 1

Yn ôl Chemers (2014, t.12) mae'r term 'arweinyddiaeth' yn broses o ddylanwad cymdeithasol, lle mae un person yn gallu rhoi cymorth a chefnogaeth i erial i gyflawni tasgau cyffredin. Mae arweinyddiaeth weithiau yn cael i weld fel rôl 'gyfrifol' i rai pobl, ac yn rôl bwerus a bod ganddi awdurdod (McDowell Clark, 2012). Fodd bynnag, dywed Eckert (2022) bod y rôl arweinydd catalytig ddim yn golygu bod yn gyfrifol neu mewn safle uwch, ond, yn arweinyddiaeth trwy gydweithio, ble mae pawb yn dangos ei arbenigeddau trwy ffurfiau gwahanol. Creda Eckert (2022) bod y math yma o arweinyddiaeth yw'r math gorau i leoliadau, oherwydd mae arbenigedd pob ymarferwyr yn wahanol, felly maen nhw'n dylanwadu ar gilydd trwy gynllunio addysg y plant. Yn debyg i Chemers (2014) a McDowell Clark (2012), mae Kruse (2013) yn cytuno bod arweinyddiaeth yn deillio o ddylanwad cymdeithasol, ac nid awdurdod a phŵer. Aeth Kruse (2013) ymlaen i ddweud nid yw arweinyddiaeth yn ymwneud â chael teitl, na rhai nodweddion phersonoliaeth a phriodoledd, gan fod llawer o wahanol arddulliau a llwybrau i fod yn arweinydd effeithiol.

Yn benodol i 'arweinyddiaeth gatalytig', dywed McDowall Clark (2012) eu rôl yw dylanwadu ar eraill, bod yn asiant newid ac arwain arfer o ddydd i ddydd. Fel ymarferydd blynyddoedd cynnar catalydd, maent yn dod â newidiadau trwy gamau cynyddrannol bach (McDowell Clark, 2012). Dywed Indeed (2023) bod 'asiantau newid' yn ysbrydoli, gwella ac yn arwain newidiadau a raglunnir yn y lleoliad. Aeth Indeed (2023) ymalen i ddweud drwy gymryd y cam cyntaf a dangos arweiniad, mae'r arweinydd yn ysbrydoli a rhoi hyder i ymarferwyr eraill i hefyd ysgogi newid o fewn y lleoliad. Mae hyder un peth sydd yn cael i nodi yn yr hierarchaeth anghenion gan Maslow (1943, 1954). Dywed Simply Psychology (2023) mae'r anghenion o fewn yr hierarchaeth yn ysgogi ymddygiad, er mwyn i unigolion weithredu a bod yn llwyddiannus.

O fewn y blynyddoedd cynnar, mae pob ymarferwr yn arwain yr arfer fewn fyrdd gwahanol, heb ystyried ei statws a rôl. Dywed McDowell Clark (2012) y pwysigrwydd o hyrwyddo arweinyddiaeth gatalytig o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, er mwyn ysbrydoli eraill i newid a hefyd i ddangos nad oes angen fod 'yn gyfrifol' na chael 'teitl' i arwain yr arfer o ddydd i ddydd. Fel dywed Kruse (2013) a McDowell Clark (2012) nid oed angen teitl er mwyn fod yn arweinydd, gan fod pawb yn gallu arwain. Hawlia

Early Years Careers (2017) bod yr amgylchedd yn y blynyddoedd cynnar yn cael i weld fel y trydydd athro. Felly, mae'n bwysig i gyflwyno newid fel bod yr amgylchedd dysgu yn ffres, cyffroes a ddiddorol i blant i ddysgu a datblygu (Early Years Careers, 2017). Aeth Early Years Careers (2017) ymlaen i ddweud bod gwneud newidiadau bach yn gallu fod yn ddigon i'r plant ymgysylltu â'r amgylchedd ac archwilio nodweddion dysgu effeithiol.

Fodd bynnag, i wneud newidiadau ac i fod yn arweinydd effeithiol, mae angen ysbrydoli'r tîm i fod y gorau y gallent a chreu a siapio gweledigaeth (Early Years Careers, 2015ch). Hefyd, mae angen weithio o fewn tîm trwy gyfathrebu a chasglu syniadau o amgylch pob agwedd o'r lleolaid (Early Years Careers, 2015ch). Dywed Toomer *et al.* (2018, t.145) bod creu perthynas yn bwysig gan weithio o fewn tîm, gan ei fod yn ymddangos amgylchedd diogel. Mae creu perthynas personal a chefnogol yn gallu meithrin hyder a chysylltiadau (Toomer *et al.* 2018, t.147). Mae hyder yn beth pwysig o fewn arweinyddiaeth. Fodd bynnag, dywed McDowell Clark (2012) bod rhai ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn ansicr o fewn ei rôl arweinyddiol, oherwydd y rhagdybiaethau o'r hyn mae arweinyddiaeth yn enteilio. Un rhagdybiaeth yw bod pobl yn meddwl bod arweinydd catalytig yn rôl 'gyfrifol', ond, fel dywed Eckert (2022) nid oed statws na fwy o gyfrifoldebau gyda'r arweinydd catalytig.

Awgryma McCrea (2015) sydd yn cael i ddyfynnu yn Kivunja (2015) bod arweinyddiaeth o fewn y blynyddoedd cynnar yn ymwneud â dod â gwelliant. Dywed Kivunja (2015) o fewn McCrea (2015) mae hyn yn gallu cael i wneud trwy ddylanwadu ar bobl, mewn mannau lle mae addysg gynnar i blant yn digwydd, ac ymgysylltu ac annog arferion proffesiynol a moesegol. Mynna McCrea (2015) o fewn (Kivunja, 2015) bod y bobl sy'n cael eu dylanwadu ar ac yn dylanwadu eraill yw'r canlynol; plant, rhieni, gofalgwyr, cynorthwywyr, athro, addysgwyr, gyrrwr bws ac unrhyw aelodau staff a allai fod yn y lleoliad blynyddoedd cynnar yn achlysurol. Yn aml iawn, daw'r bobl hyn o amrywiaeth eang o gefndiroedd, yn gymdeithasol, yn ddeilliannol, yn economaidd, ac mewn llawer o ffyrfhau eraill, ac felly meant yn amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Dywed McCrea (2015) o fewn (Kivunja, 2015) y pwysigrwydd o rôl yr arweinydd o fewn y sefyllfa yma, hynny yw sicrhau bod ymarferwyr yn broffesiynol wedi'u grymuso i roi cefnogaeth ac addysg i'r plentyn ac i'r teuluoedd. Cefnoga hyn gan Arthur *et al.* (2017), trwy gynnwys a chyfathrebu gyda rhieni neu ofalgwyr maen nhw'n teimlo fel rhan o'r gymuned, ac yn cael teimlad o ymberthyn. Hawlia Arthur *et al.* (2017), bod hi'n hanfodol bod ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn sensitif ac yn ymatebol i amrywiaeth a gwahaniaeth a chymryd rhan mewn adfyfrio allweddol am eu partneriaeth a'u haddysgeg. Dywed Early Years Careers (2016dd) bod cyfathrebu yn rhan allweddol o reoli tîm blynyddoedd cynnar. Mae rhaid i arweinyddion cyfathrebu'n effeithiol, gwrando a rhyngweithio gyda'r tîm yn gyson, i sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un nôd (Early Years Careers, 2016dd). Mae hyn yn gallu cael i wneud trwy oruchwyliaethau, gwerthusiadau a chyfleoedd mentora (Early Years Careers, 2016dd).

O fewn y blynyddoedd cynnar, mae ymarferwyr yn cael i annog i ymgymryd mewn datblygiad proffesiynol parhaus (Early Years Careers, 2017). Mae hyn er mwyn gwella dealltwriaeth a sgiliau, ac i sicrhau bod gofal ac addysg o safon dda yn cael i ddarparu i blant (Early Years Careers, 2017). Ymhellach, dywed Proffesional association for childcare and early years (PACEY) (dim dyddiadll) bod datblygiad proffesiynol parhaus yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr i helpu plant i gael dechreuad da i fywyd. Aeth PACEY (dim dyddiadll) ymlaen i ddweud bod datblygiad proffesiynol parhaus yn gyfuniad o ddulliau, syniadau a thechnegau a fydd yn helpu ymarferwyr i ddeall mwy am yr amgylchedd maent yn gweithio ynddo, y swydd maent yn gwneud a sut i wella yn eu harfer. Fodd bynnag, mae yna rwystrau sydd yn cael i wynebu sydd yn atal ymarferwyr i gael a chael budd o hyfforddiant ychwanegol. Yn ôl Croner-i (2020), does dim digon o gyllid o fewn sector y blynyddoedd cynnar i gynnal cyrsiau a hefyd does dim digon o amser. I gefnogi hyn, dywed BBC (2020) bod y llywodraeth wedi buddsoddi £20miliwn am hyfforddiant gwell i ymarferwyr blynyddoedd cynnar, yn benodol mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae arweinydd catalytig yn ei rôl i ysgogi a gweithredu newid o fewn y lleoliad, ac i ysbrydoli eraill o fewn y tîm (McDowell Clark, 2012). Fodd bynnag, mae heriau o geisio ysgogi newid o fewn y lleoliad. Dywed Wooll (2022) bod y ffordd mae pawb yn gweithio yn newid, ac yn wahanol i'w gilydd. Aeth Wooll (2022) ymlaen i ddweud bod gweithwyr yn edrych lan at arweinyddion am arweiniad a chysur. Hawlia Wooll (2022) bod hi'n bwysig i arweinyddion catalytig i ddilysu'r teimladau i'r tîm a'u helpu i deimlo bod eu pryderon yn cael i glywed, a'u helpu i ddod o hyd i bethau cadarnhaol o'r newid. O fewn yr addysg y blynyddoedd cynnar mae pethau yn newid yn gyson, fel y cwricwlwm. Yn 2022, gaeth cwricwlwm newydd i Gymru i gyflwyno a'i nod yw helpu ysgolion i ddatblygu cwricwlwm ei hun (Llywodraeth Cymru, 2020). Dywed Donaldson (2015) bod y cwricwlwm i Gymru yn cynnwys diffinio'r mewnbynnau y dali bob plentyn, neu grwpiau penodol o blant, eu profi a'u hadlewyrchai yn y dull gweithredu sydd wedi'i seilio ar lawer o wledydd. Dywed Llywodraeth Cymru (2018ng) mae'r plant yng Nghymru agen gwneud dewisiadau ynglŷn â'i addysg, sydd wedi cael i integreiddio o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru.

Trwy fywyd mae llawer o blant yn wynebu rhai ffactorau cymdeithasegol, megis pethau sydd yn effeithio datblygiad plentyn. Noda Dahlgren and Whitehead (1991) sydd yn cael i ddyfynnu yn GOV.UK (2017) rhai ffactorau cymdeithasegol sydd yn gallu effeithio plentyndod a datblygiad plentyn, megis, cartrefi, gwasanethau goal iechyd, dŵr a glanweithdra, diweithdra ac addysg. Felly, mae creu perthynas efo plant a'i theuluoedd yn bwysig er mwyn rhoi gofal gorau posib a'r rhoi'r cymorth perthnasol. Dywed Early Years Careers (2016e) bod perthynas gyda rhieni yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar er mwyn cael gwybodaeth berthnasol am y plentyn, er enghraifft digwyddiadau adref. Wrth adnabod y wybodaeth wrth rieni, mae'r arweinydd ar ymarferwyr yn gallu sicrhau mae'r plentyn yn ddiogel ac yn derbyn y gefnogaeth hanfodol iddynt ddatblygu (Early Years Careers, 2016e). Hawlia Llywodraeth Cymru (2017ff) mae darparu cymorth rhenta da yn allweddol i ganlyniadau llwyddiannus i blant. Aeth Llywodraeth Cymru (2017ff) ymlaen i ddweud bod profiadau plentyn sydd

yn gadarnhaol a negyddol yn effeithio ar iechyd a llesiant plant. Felly, mae hyn yn cael i gefnogi gan arweinydd catalytig, gan fod yr arweinydd angen gwneud newidiadau a gwahaniaeth yn fywydau'r plant. Fel dywed McDowell Clark (2012) mae rôl arweinydd catalytig yw cefnogi newidiai o fewn y lleoliad.

I grynhoi, mae arweinyddiaeth gatalytig yn rhoi cyfle i bawb o fewn y tîm i gydweithio gan ddefnyddio arbenigedd ei gilydd. O fewn y blynyddoedd cynnar, mae plant yn wynebu achosion sydd yn effeithio ei phlentyndod a datblygiad. Felly, mae arweinyddion catalytig yn gallu cynnig cefnogaeth i'r plant a'i theuluoedd.

Rhan 2

Rôl y Comisiynydd Plant yw cefnogi plant a phobl ifanc i addysgu am eu hawliau (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiada). Mae'r hawliau yn cael i adrodd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau Plentyn (CCUHP), sef ble mae'r 42 errthygl yn amlinellau hawliau plant o dan 18 oed (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Mae'r Comisiynydd Plant yn cael i ddylanwadu ar y llywodraeth, sydd yn gwneud y penderfyniadau a rheolau i wneud gwahaniaeth o fewn bywydau plant (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiada). Yn 2022, penodwyd comisiynydd plant newydd yng Nghymru, sef Rocio Cifuentes. Dywed Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiada) ei rôl yw addysgu pawb am bwysigrwydd hawliau plant, a, hefyd diogelu plant. Ei gwaith presennol yw cefnogi dysgu yn yr ysbytai, ar gyfer plant sydd angen aros yn yr ysbyty neu leoliadau gofal iechyd eraill (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Mae gwaith yma yn cefnogi erthygl 28 yr CCUHP, sef yr hawl i addysg (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Cyn i Rocio cael i pennodi, Sally Holland oedd y Comisiynydd Plant i Gymru, ac roedd hi'n rhan o'r gwaith y mae bellach yn anghyfreithlon yng Nghymru i rieni smacio eu plant (BBC, 2022).

Yr adroddiad dewiswyd i werthuso'n feirniadol gan y Comisiynydd Plant Cymru yw'r adroddiad 'The Right Way' (Comisiynydd Plant Cymru, 2021). Mae'r adroddiad yma wedi cael i ysgrifennu ar lefel macrosystem o'r dull Bronfenbrener, gan ei fod wedi cael i ysgrifennu gan sefydliad sydd yn cael i reoli o dan y llywodraeth. Dywed Comisiynydd Plant Cymru (2021) bod yr adroddiad wedi cael i gyhoeddi cefnogi arweinyddion o leoliadau addysg, i ddatblygu dulliau o hawliau dynol o fewn eu lleoliadau. Mae'r adroddiad yn hyrwyddo'r pwysigrwydd o gael hawliau dynol plant i fod yn rhan o ddeddfwriaeth Cymru. Hawlia Comisiynydd Plant Cymru (2021) y pwysigrwydd o bawb yn cael dealltwriaeth, ac i fod yn rhan o'n diwylliant ac amgylchedd yng Nghymru. Cefnoga'r adroddiad yma gyda'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan ei fod yn cwrdd â'r 4 pwrpas a dysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad (Comisiynydd Plant Cymru, 2021). Dywed UNICEF (dim dyddiad) bod hi'n bwysig i barchu hawliau plant i'w help plant i ddatblygu i'w llawn potensial. Aeth UNICEF (dim dyddiad) ymlaen i ddweud bod y Confensiwn yn cynnig gweledigaeth o'r plentyn fel unigolyn. Mae'r unigolion hefyd yn cael i weld fel aelod o deulu a chymuned, sydd â hawliau a chyfrifoldebau sy'n briodol

i'w hoedran a chyfnod o ddatblygiad, ac yn ffocysu ar y plentyn yn ganolig (UNICEF, dim dyddiadm).

Un pwynt a gaiff i drafod yn yr adroddiad yw 'cydraddoldeb a dim gwahaniaethu.' Dywed Comisiynydd Plant Cymru (2021) bod cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud y gorau o'i ddoniau a datblygu i'w llawn botensial. Hawlia'r Comisiynydd Plant Cymru (2021) ni ddylai unrhyw blentyn ddioddef newidiadau bywyd gwael oherwydd gwahaniaethu. Cefnoga hyn gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd yn amlygu pwysigrwydd o ddod ynghyd a sawl maes o wahaniaethu, sydd yn cael i adnabod fel nodweddion gwarchodedig (PACEY, dim dyddiad). Noda PACEY (dim dyddiad) rhai o'r nodweddion sydd yn cael i drafod yn y ddeddf sef; anabledd, rhyw, hiliau, crefydd a chredoau. O fewn y blynyddoedd cynnar, mae'n bwysig i greu amgylchedd cynhwysol a bod ymarferwyr yn hyderus bod adnoddau o fewn lleoliadau yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (PACEY, dim dyddiad). Dywed Early Years Alliance (dim dyddiad) bod arfer cynhwysol effeithiol yn y blynyddoedd cynnar yn darparu pob plentyn i fynediad i gyfleoedd a chefnogaeth yn ystod blynyddoedd cynharaf a mwyaf dylanwadol o eu dysgu a'u twf. Mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn darparu amgylchedd diogel i rieni, plant ac ymarferwyr i ddysgu am wahaniaethau a thebygrwydd ei gilydd a dysgu empathi a gwerthfawrogi eraill (Early Years Alliance, dim dyddiad). Dywed Comisiynydd Plant Cymru (2021) bod hi'n bwysig bod ymarferwyr yn adnabod y wybodaeth ddiweddaraf am y Ddeddf Cydraddoldeb, a chael hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth o grwpiau gwahanol o anghenion plant a phobl ifanc.

Dywed y Comisiynydd Plant Cymru (2021) bod angen i leoliadau addysg i hyrwyddo newid o fewn lleoliadau, fel bod plant yn gallu cyfranogi bob amser ar sail gyfartal. Felly, i wneud hyn mae rhaid i leoliadau sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau cyfartal ar draws holl feysydd y tu mewn a thu allan i'r ystafell dosbarth (Comisiynydd Plant Cymru, 2021). Fodd bynnag, dywed Ferguson (2008) sydd yn cael i ddyfynnu yn Carrington *et al.* (2016) mae gweithredu polisïau addysg gynhwysol yn llwyddiannus yn dibynnu'n ar yr adnoddau ysgol sydd ar gael i gefnogi cynhwysiant. Yn ogystal â hynny, mae'n hefyd yn dibynnu ar y cymorth sydd ar gael i athrawon, sydd angen darparu addysg gynhwysol i bob angen o fewn y dosbarth (Ferguson, 2008 dyfynnwyd yn Carrington *et al.*, 2016). Dywed UNICEF (dim dyddiadn) bod angen i athrawon ac ymarferwyr cael i hyfforddi, dylai adeiladau cael i adnewyddu a rhaid i fyfyrwyr dderbyn deunyddiau dysgu hygyrch. Ond, yn ôl Gwenllian (2019) mae'r system addysg yng Nghymru yn wynebu argyfwng, oherwydd y diffyg cyllid. Mae athrawon ac ymarferwyr yn ysgolion Cymru yn gweithio o dan gyfyngiadau penodol iawn, o ran diffyg adnoddau a chyllid (Gwenllian, 2019). Dywed Croner-i (2020) does dim digon o gyllid i ymarferwyr mynych hyfforddiant yn y blynyddoedd cynnar. Dywed Early Years Resources (2021) bod hyrwyddo amrywiaeth trwy ddefnyddio adnoddau yn hanfodol i ddatblygu plant meddwl agored, caredig a chariadus, ac i godi ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad i eraill.

Un pwynt arall a gaiff i drafod yn yr adroddiad yw 'grymuso plant.' Dywed y Comisiynydd Plant Cymru (2021) bod hawliau dynol yn grymuso plant, sef datblygu galluoedd a sgiliau plant fel eu bod yn gallu manteisio'r hawliau. Trwy rymuso plant a hawliau dynol, maen nhw hefyd yn ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau sydd yn effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt a'u dal yn atebol (Comisiynydd Plant Cymru, 2021). Aeth Comisiynydd Plant Cymru (2021) ymlaen i ddweud bod 'grymuso' yn lleoliadau addysg hefyd yn grymuso bywyd y plant gyda'i theuluoedd, yn y gymuned ac fel dinesydd. Mae'r Comisiynydd Plant Cymru (2021) yn dweud y pwysigrwydd bod plant yn gallu siarad am eu barn a'u profiadau a chodi pryderon os nad yw eu hawliau yn cael i gwrdd. Yn ôl Early Years Careers (2015d) mae rhoi llais i blentyn yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar gan ei fod yn dangos bod anghenion pob plentyn yn cael i gwrdd. Mae llais plentyn yn hyrwyddo eu hunan-barch a hunanwerth, ac yn rhoi teimlad o werth i blentyn pan mae eu llais yn cael i glywed (Early Years Careers, 2015d). Dywed Murray (2019) sydd yn cael i ddyfynnu yn Lawrence (2022) bod llais y plentyn yn cael i dderbyn a chydabod fel cyfraniadau gwerthfawr at wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd plant. Yn addysg Te Whāriki yn Seland Newydd, mae plant yn teimlo eu bod wedi'u grymuso eu parchu a'u bod yn ymddiried ynddynt (The Education Hub, 2020). Mae hyn yn cael i wneud pan fyddant yn gallu dilyn eu bwriadau a diddordebau unigol mewn cysylltiad i weithgaredd dysgu, datrys problemau o amgylch ei gofal a dysgu (The Education Hub, 2020). Dywed The Education Hub (2020) bod plant yn teimlo eu bod wedi'u grymuso pryd mae'r cwricwlwm yn annog nhw i archwilio dysgu trwy chwarae, a pryd mae athrawon yn darparu gweithgareddau sydd yn ymestyn eu dysgu. Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru wedi cael i addasu yn 2022 er mwyn cynnwys barn y plant ar sut y dylai'r cwricwlwm eu cynnwys (Llywodraeth Cymru, 2018ng). Yn debyg i addysg Te Whāriki yn Seland Newydd, mae'r cwricwlwm yng Nghymru wedi cynllunio'r cwricwlwm i sicrhau bod plant yn cael eu barn nhw (Llywodraeth Cymru, 2018ng). Roedd y plant yng Nghymru angen dewis dysgu eu hun, er mwyn dilyn eu talent (Llywodraeth Cymru, 2018ng). Dywed Llywodraeth Cymru (2018g) bod y Cwricwlwm Newydd i Gymru wedi newid i sicrhau hyblygrwydd i ddysgu, a pharhau at ymestyn sgiliau newydd sydd angen yn y dyfodol am y byd gwaith.

Rhan 3

Mae llawer o ffactorau cymdeithasegol sy'n gallu cyflwyno heriau i blant a'u profiadau bywyd o'i phlentyndod cynnar, fel yr amgylchedd maent yn byw ynddo, megis tlodi, neu ffactorau iechydd megis anghenion dysgu ychwanegol. Yr agwedd gymdeithasegol y canolbwyntir arni ar gyfer y gwerthusiad beirniadol hwn yw 'tlodi.' Dywed Yoshikawa *et al.* (2012) bod tlodi yn ffactor risg allweddol ar gyfer llawer o anhwylderau meddyliol, emosiynol ac ymddygiadol plant a phobl ifanc. Noda Hanson *et al.* (2013) bod byw mewn llefydd o dlodi yn rhoi plant mewn perygl mawr o wynebu problemau ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys addysg, rheoleiddio ymddygiad ac iechydd.

Yn ôl Action for Children (2022) cyn pandemig y coronafeirws a ddechreuodd yn 2020, roedd 4.3 miliwn o blant yn dioddef ac yn byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig (DU). Fodd bynnag, ar ôl y pandemig gostyngodd hyn i 3.9 miliwn (Action for Children, 2022) sef 27% o blant neu 8 mewn dosbarth o 30 (Child Poverty Action Group (CPAG), dim dyddiad). Dywed Whitehead, Taylor-Robinson a Barr (2021) oherwydd rheolau'r clo-mawr mae'r anghymesur wedi effeithio ar deuluoedd incwm isel a phlant ifanc. Esbonia Action for Children (2022) bod yr ystadegyn tlodi wedi gostwng yn bennaf oherwydd y cynnydd dros dro o £30 yr wythnos i gredyd cynhwysol (Action for Children, 2022). Cefnoga Whitehead, Taylor-Robinson a Barr (2021) a Action for Children (2020) bod y galw cynyddol am gredyd cynhwysol annigonolrwydd y lefelau presennol o fanteision.

Yn benodol i Gymru, mae amcangyfrif o 34% o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn byw mewn tlodi (Plant yng Nghymru, 2022). Dywed Plant yng Nghymru (2022) bod canfyddiadau'n dangos bod cynnydd mewn dyledion, tlodi bwyd a thanwydd, a chynnydd dramatig mewn iechyd emosiynol gwael, nid yn unig rhieni ond plant a phobl ifanc eu hunain. Cefnoga BBC (2021) gyda Phlant yng Nghymru (2022) bod Cymru wedi cyrraedd y cyfraddau tlodi plant uchaf yn y DU o dan ganfyddiadau 'Save The Children.' Mae 'Save The Children' wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys, neu bydd beryglai o fwy o blant yn cael eu hysgubo i dlodi (BBC, 2021). Yn ôl Public Health Wales (2022) mae'r argyfwng costau byw yn bellach yn argyfwng iechyd cyhoeddus, ac mae angen mynediad at gefnogaeth feddyliol a lles, a hefyd egni, tai a bwyd i amddiffyn iechyd ac achub bywydau. Noda Public Health Wales (2022) dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynyddiad o 69% o bobl yn profi ansicrwydd bwyd yng Nghymru.

Hawlia Pereira a Oliveira (2020) bod y pandemig coronafeirws wedi codi materion pwysig sydd yn ymwneud â bwyd ac amodau byw mewn gwahanol wledydd. Ers hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cyflwyno prydau bwyd am ddim ym mhob Ysgolion Cynradd yng Nghymru, gan ddechrau gyda dosbarthiadau meithrin, a bydd pob plentyn yn Ysgolion Cynradd yn cael prydau bwyd am ddim erbyn 2024 (Llywodraeth Cymru, 2022i). Aeth Llywodraeth Cymru (2022i) ymlaen i ddweud bod yr ymyriad yma wedi cael i gyflwyno mewn ymateb i'r pwysau cynyddol o ran costau byw ar deuluoedd, ac uchelgeisiau'r Llywodraeth i geisio gwella tlodi o fewn teuluoedd yng Nghymru. Mae'r ymyriad yma hefyd yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn newynu yn yr ysgol, hyrwyddo bwyta'n iach a chynyddu amrywiaeth o fwyd mae plant yn bwyta (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Mae'r rhaglen yma yn dilyn erthygl 24 y CCUHP sef yr hawl i gael dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn gadw'n iach (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Mae'r hierarchaeth o anghenion Maslow hefyd yn dangos y pwysigrwydd o fwyd a dŵr i unigolion (Simply Psychology, 2023). Dywed Simply Psychology (2023) er mwyn i blant cyrraedd y brig o'r hierarchaeth anghenion Maslow, mae angen iddynt gael yr anghenion sylfaenol i gyflawni ei botensial llawn, sydd ar frig yr hierarchaeth.

Mewn cysylltiad ag prydu bwyd am ddim, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu Clwb Brecwast am ddim yn rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru. Dywed Llywodraeth Cymru (2022h) nod Clwb Brecwast yw darparu brecwast iachus i bob plentyn cyn dechrau'r dydd yn yr ysgol. Mae canfyddiadau yn dangos bod plant sy'n cael cyfle i fwyta brecwast iachus a maethlon yn fwy tebygol o gyflawni eu llawn botensial mewn addysg (Llywodraeth Cymru, 2022h). Dywed Jenson (2012) bod ieuchyd a maeth yn chwarae rôl bwysig i blant, gan fod prydu fel brecwast yn helpu ymennydd y plentyn trwy wrando, canolbwyntio a dysgu (Jensen, 2012). Aeth Jensen (2013) ymlaen i ddweud bod teuluoedd sydd ag incwm is yn llai tebygol o wneud ymarfer corff, cael diagnosis neu gael meddyginiaeth neu ymyriadau addas.

Un gwasanaeth arall sydd hefyd wedi cael i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yw'r gwasanaeth Dechrau'n Deg. Dechrau'n Deg yw rhaglen yn y Blynyddoedd Cynnar sydd wedi cael i gynllunio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd gyda phlant o dan 4 oed, sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017f). Dywed Llywodraeth Cymru (2017f) ei nod yw gwneud gwahaniaeth pendant i liniaru'r effaith o dlodi, sy'n gysylltiedig â chanlyniadau bywyd gwael i blentyndod cynnar, gan gynnwys canlyniadau ieuchyd. Noda Llywodraeth Cymru (2017f) bod teuluoedd o dan ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael ymyriadau cymesur darbodus trwy ddull tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, mae rhai pryderon ynghylch dechrau'n deg. Dywed Sefydliad Bevan (2013) wrth edrych ar ddata, mae mwyafrif o ardaloedd tlodi yn cael y gefnogaeth sydd eisiau gan Ddechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae pocedi bach yn rhai ardaloedd o amddifadedd sydd ddim yn cwmpo o dan ardaloedd Dechrau'n Deg, felly nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth dderbyniol sydd angen (Sefydliad Bevan, 2013). Creda Sefydliad Bevan (2013) bod angen fwy o hyblygrwydd o ran adnabod y teuluoedd sydd mewn angen, er mwyn gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael cyfleoedd cyfartal ac nad yw'n dod yn loteri cod post. Cytuna BBC (2018) bod angen i'r cynllun fod yn fwy hyblyg yn Gymru gyfan, er mwyn i gynghorau lleol i ddarparu cefnogaeth a help i bobl sydd angen y fwyaf. Yn flwyddyn 2016 - 2017 wnaeth 37,600 o blant cael budd o'r cynllun Dechrau'n Deg (BBC, 2018).

I grynhoi, mae tlodi yn gostyngi yng Nghymru, ond yn dal i effeithio ar lawer o blant, phobl ifanc a theuluoedd. Fodd bynnag, gyda chymorth o wasanaethau, gellir rhoi ymyriadau i gefnogi plant a'u theuluoedd. Mae Cymru hefyd wedi cyflwyno ymyriadau newydd fel y cynllun i bob plentyn mewn ysgolion cynradd i gael prydu bwyd ysgol am ddim. Gobeithio y bydd yr ymyriadau fel hyn yn helpu'r problemau parhaus o dlodi.

Rhestr Cyfeirnod

Action for Children (2022) *Where is child poverty increasing in the UK?* Ar gael o: https://www.actionforchildren.org.uk/blog/where-is-child-poverty-increasing-in-the-uk/?msclkid=67cbde0147721ed8f367bdf9a0a58a75&utm_source=bing&utm_medium=cpc&utm_campaign=Blogs&utm_term=childhood%20poverty%20uk&utm_content=Where%20is%20child%20poverty%20increasing%20in%20the%20UK%3F (Darllenwyd: 24^{ain} o Chwefror 2023)

Arthur, L. et al. (2017) *Programming and planning in early childhood settings*. Cengage AU. (Darllenwyd: 28^{ain} o Chwefror 2023)

BBC (2018) *Flying Start child poverty scheme 'excluded' families*. Ar gael o: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43157012> (Darllenwyd: 26^{ain} o Chwefror 2023)

BBC (2020) *Early-years workers quit 'underpaid and undervalued' jobs*. Ar gael o: <https://www.bbc.co.uk/news/education-53649895> (Darllenwyd: Mawrth 1^{af} 2023)

BBC (2021) *Wales 'has highest child poverty rates in UK' says Save The Children*. Ar gael o: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-57157436> (Darllenwyd: 24^{ain} o Chwefror 2023)

BBC (2022) *Smacking children in Wales becomes illegal*. Ar gael o: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-60781395> (Darllenwyd: 3^{ydd} o Fawrth 2023)

Carrington, S. et al. (2016) 'Teachers' experiences of inclusion of children with developmental disabilities across the early years of school,' *Journal of Psychologists and Counsellors in Schools*, 26(2), pp.139-154. (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Chemers, M. (2014) *An integrative theory of leadership*. Psychology Press. (Darllenwyd: 18^{fed} o Chwefror 2023)

Child Poverty Action Group (dim dyddiad) *Child Poverty Facts and Figures*. Ar gael o: <https://cpag.org.uk/child-poverty/child-poverty-facts-and-figures> (Darllenwyd: 24^{ain} o Chwefror 2023)

Comisiynydd Plant Cymru (2021) *The Right Way*. Ar gael o: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/680182/mod_resource/content/1/TheRightWayEducation_ENG.pdf?redirect=1 (Darllenwyd: 5^{ed} o Fawrth 2023)

Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiada) *Amdanon Ni*. Ar gael o: <https://www.complantcymru.org.uk/amdanon-ni/> (Darllenwyd: 3^{ydd} o Fawrth 2023)

Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiadb) *Current Work*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/our-work/current-work/> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiad) *CCUHP – Hawliau*. Ar gael o: <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp/> (Darllenwyd: 25^{ain} o Chwefror 2023)

Croner-I (2020) *Professional development in the early years workforce*. Ar gael o: <https://app.croneri.co.uk/feature-articles/professional-development-early-years-workforce> (Darllenwyd: Mawrth 1^{af} 2023)

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 5^{ed} o Fawrth 2023)

Early Years Alliance (dim dyddiad) *Equality and inclusive practice*. Ar gael o: <https://www.eyalliance.org.uk/equality-and-inclusive-practice> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Early Years Careers (2015ch) *Being an effective early years leader*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscareers.com/eyc/latest-news/being-an-effective-early-years-leader/> (Darllenwyd: 28^{ain} o Chwefror 2023)

Early Years Careers (2015d) *The importance of giving children a voice*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscareers.com/eyc/latest-news/the-importance-of-giving-children-a-voice/> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Early Years Careers (2016dd) *6 ways of effectively managing an Early Years team*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscareers.com/eyc/latest-news/6-ways-managing-early-years-team/#:~:text=Communication%20is%20key%20is%20managing%20an%20Early%20Years,upheld%20through%20regular%20supervisions%2C%20appraisals%20and%20mentoring%20opportunities>. (Darllenwyd: 2^{ail} o Fawrth 2023)

Early Years Careers (2016e) *Why parent partnerships are so important*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscareers.com/eyc/early-years-practice/parent-partnerships-important/> (Darllenwyd: 2^{ail} o Fawrth 2023)

Early Years Careers (2017) *Why you should regularly change the early years environment*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscareers.com/eyc/enabling-environment/regularly-change-early-years-environment/> (Darllenwyd: 28^{ain} o Chwefror 2023)

Early Years Careers (dim dyddiad) *Ways to develop ongoing training for early years staff*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscareers.com/eyc/ways-to-help-continuous-improvement/ways-develop-ongoing-training-early-years-staff/#:~:text=The%20importance%20of%20developing%20ongoing%20professional%20development%20for,teaching%20and%20learning%20is%20being%20delivered%20to%20children> (Darllenwyd: Mawrth 1^{af} 2023)

Early Years Resources (2021) *Promoting Diversity in Your School Setting*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsresources.co.uk/blog/2021/03/promoting-diversity-in-your-setting/> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Eckert, J. (2022) Catalytic Leadership [fideo]. Ar gael o: <https://www.youtube.com/watch?v=Nu-liFOdklg&t=173s> (Darllenwyd: 2^{ail} o Fawrth 2023)

GOV.UK (2017) *Chapter 6: social determinates of health*. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/publications/health-profile-for-england/chapter-6-social-determinants-of-health> (Darllenwyd: 2^{ail} o Fawrth 2023)

Gwenllian, S (2019) *Funding education in Wales*. Ar gael o: <https://www.iwa.wales/agenda/2019/07/funding-education-in-wales/#:~:text=There%20is%20not%20enough%20money%20going%20into%20our,far%20too%20much%20intervention%20in%20their%20day-to-day%20activities> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Hanson, J. (2013) 'Family poverty affects the rate of human infant brain growth', *PloS one*, 8(12), p.e80954 Ar gael o: <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0080954> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Indeed (2023) *What Is a Change Agent? (Plus Skills Useful for the Role)*. Ar gael o: <https://www.indeed.com/career-advice/career-development/change-agent> (Darllenwyd: 28^{ain} o Chwefror 2023)

Jensen, E. (2013) 'How poverty affects classroom engagement', *Educational leadership*, 70(8), pp.24-30. Ar gael o: <https://haiti-now.org/wp-content/uploads/2017/05/How-Poverty-Affects-Classroom-Engagement.pdf> (Darllenwyd: 25^{ain} o Chwefror 2023)

Kivunja, C. (2015) 'Leadership in Early Childhood Education Contexts: Looks, Roles, and Functions', *Creative Education*, 6(16), p.1710. (Darllenwyd: 28^{ain} o Chwefror 2023)

Kruse, K. (2013) What is leaderships. *Forbes Magazine*, 3. Ar gael o: <http://www.professorpeaches.com/wp-content/uploads/2015/02/What-is-leadership-Forbes.pdf>

Lawrence, P. (2022) 'Hearing and Acting with the Voice of Children in Early Childhood', *Journal of the British Academy*, 8(s4), pp.77-90. (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Llywodraeth Cymru (2017f) *Flying Start Health Programme Guidance*. Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-health-programme-guidance_0.pdf (Darllenwyd: 25^{ain} o Chwefror 2023)

Llywodraeth Cymru (2017ff) *Rhiant yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth*. Ar gael o: [ymgysylltu-a-chymorth-wrth-rianta-canllawiau-i-ddarparwyr.pdf](https://www.gov.wales/canllawiau-ar-ymgysylltiad-a-chymorth) (Darllenwyd: 2^{ail} o Fawrth 2023)

Llywodraeth cymru (2018g) Cwricwlwm newydd i Gymru [fideo]. Ar gael o: <https://www.youtube.com/watch?v=hJiUiPkJbLU> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Llywodraeth Cymru (2018ng) *Voices of Children and Young People in the New Curriculum for Wales*. Ar gael o: <https://curriculumforwales.gov.wales/2018/03/05/voices-of-children-and-young-people-in-the-new-curriculum-for-wales/> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Llywodraeth Cymru (2020) *Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm I Gymru*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad/> (Darllenwyd: 2^{ail} o Fawrth 2023)

Llywodraeth Cymru (2022h) *Free breakfast in primary schools: information for parents and carers*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/free-breakfast-primary-schools> (Darllenwyd: 24^{ain} o Chwefror 2023)

Llywodraeth Cymru (2022i) *Universal Primary Free School Meals (UPFSM)*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/universal-primary-free-school-meals-upfsm> (Darllenwyd: 24^{ain} o Chwefror 2023)

McDowall, R. (2012) 'I've never thought of myself as a leader but...': the Early Years Professional and catalytic leadership', *European Early Childhood Education Research Journal* 20(3), pp.391-401. DOI: 10.1080/1350293X.2012.704762 (Darllenwyd: 22^{ain} o Chwefror 2023)

PACEY (dim dyddiadl) *Promoting positive diversity*. Ar gael o: <https://www.pacey.org.uk/working-in-childcare/spotlight-on/promoting-positive-diversity/#:~:text=Additionally%2C%20the%20early%20years%20foundation%20stage%20framework%20clearly,the%20legal%20responsibilities%20under%20the%20Equality%20Act%202010%22>. (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Pereira, M. a Oliveira, A.M. (2020) 'Poverty and food insecurity may increase as the threat of COVID-19 spreads', *Public health nutrition*, 23(17), pp.3236-3240. DOI:10.1017/S1368980020003493 (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Plant yng Nghymru (2022) *Children in Wales launches its 6th Annual Child & Family Poverty Survey Finding Report*. Ar gael o: <https://www.childreninwales.org.uk/news/children-wales-launches-its-6th-annual-child-family-poverty-survey-findings-report/> (Darllenwyd: 24^{ain} o Chwefror 2023)

PACEY (dim dyddiadl) *Why your training and development is important*. Ar gael o: <https://www.pacey.org.uk/training-and-qualifications/the-importance-of-training-and-cpd/> (Darllenwyd: Mawrth 1^{af} 2023)

Public Health Wales (2022) *Cost of living crisis: a public health emergency*. Ar gael o: <https://phw.nhs.wales/news/cost-of-living-crisis-a-public-health-emergency/> (Darllenwyd: 25^{ain} o Chwefror 2023)

Robinson, K. (2017) *The Role of Leadership in Education Needs to Change, It's Time to Stop Following the Leader*. Available at: <https://hundred.org/en/articles/the-role-of-leadership-in-education-needs-to-change-it-s-time-to-stop-following-the-leader#c8adaa34> (Darllenwyd: 27^{ain} o Chwefror 2023)

Sefydliad Bevan (2013) *Poverty – Can Communities First and Flying Start help?* Ar gael o: https://www.bevanfoundation.org/views/poverty_flying_start/ (Darllenwyd: 26^{ain} o Chwefror 2023)

Simply Psychology (2023) *Maslow's Hierarchy Of Needs Theory*. Ar gael o: <https://simplypsychology.org/maslow.html> (Darllenwyd: 5^{ed} o Fawrth 2023)

The Education Hub (2020) *Principle of Empowerment / Whakamana*. Ar gael o: <https://theeducationhub.org.nz/principle-of-empowerment-whakamana/> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Toomer, J. et al. (2018) *The Catalyst Effect: 12 Skills and Behaviors to Boost your Impact and Elevate Team Performance*. London. Emerald Publishing. (Darllenwyd: 28^{ain} o Chwefror 2023)

UNICEF (dim dyddiadm) *Child rights and why they matter*. Ar gael o: <https://www.unicef.org/child-rights-convention/child-rights-why-they-matter> (Darllenwyd: 3^{ydd} o Fawrth 2023)

UNICEF (dim dyddiadn) *Inclusive education*. Ar gael o: <https://www.unicef.org/education/inclusive-education> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Whitehead, M., Taylor-Robinson, D. a Barr, B. (2021) 'Poverty, health, and covid-19', *bmj*, 372. Ar gael o: https://web.archive.org/web/20210223144525id_/https://www.bmj.com/content/bmj/372/bmj.n376.full.pdf (Darllenwyd: 4^{ydd} o Fawrth 2023)

Wooll, M. (2022) *How to deal with 17 common leadership challenges*. Ar gael o: <https://www.betterup.com/blog/leadership-challenges> (Darllenwyd: 2^{ail} o Fawrth 2023)

Yoshikawa, H. et al. (2012) 'The effects of poverty on the mental, emotional, and behavioural health of children and youth: implications for prevention', *American Psychologist*, 67(4), p.272. Ar gael o: https://sites.nationalacademies.org/cs/groups/dbassesite/documents/webpage/dbasse_069837.pdf (Darllenwyd: 24^{ain} o Chwefror 2023)